Eisteddfod Gadeiriol Cynwyl Elfed a'r Cylch

Cafwyd noson hwylus iawn ar nos Wener, Ionawr 26ain, a'r neuadd yn llawn tan y diwedd - tua 1 o'r gloch fore Sadwrn. Dechreuwyd am 5 o'r gloch gyda'r plant, y mwyafrif ohonynt o Ysgol Cynwyl Elfed, ac yna am weddill y nos roedd y cystadlu yn bennaf rhwng capeli Hermon, Blaenycoed a Bryn Iwan. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Caian Evans o Langennech, am ddyddiadur wythnos, a'r Gadair gan Siwan Ress o Flaenycoed, am bortread o gymeriad. Ar ddiwedd y nos dim ond dau gôr oedd yn canu eleni, a Chôr Blaenycoed oedd yn fuddugol.

Y beirniaid prysur oedd Fflur Dafydd ar yr adrodd a'r llenyddiaeth, a Dorian Samson ar y cerdd. Roedd Dorian Samson wedi dod ar fyr rybudd am fod Gwenda Owen yn dost. Hefyd cawsom ddwy gystadleuaeth ddawnsio, - un i unigolion ac un i bartïon dawnsio. Y beirniad yma oedd Dafydd Evans.

Roedd plant yr ysgol i gyd wedi cystadlu ar yr arlunio, a'u lluniau yn cael eu harddangos yn y neuadd, wedi eu beirniadu gan Llinos Thomas.

Yn ystafell gefn y neuadd roedd y cystadlaethau coginio a'r gwaith llaw. Roedd 17 wedi cystadlu ar y bara brith, nifer o blant cynradd wedi gwneud bisgedi a phlant uwchradd wedi gwneud "sponge". Roedd tipyn o waith llaw hefyd, a Gaynor Davies wedi beirniadu.